**PWYLLGOR LLYWODRAETH LEOL A THAI**

**YSTYRIED Y PAPUR YMGYNGHORI AR Y CANLLAWIAU DRAFFT AR GYFER STRATEGAETHAU CYMUNEDOL**

**Diben**

1. Gofynnir i'r Pwyllgor ystyried cynnwys y canllawiau drafft ar strategaethau cymunedol a'r trefniadau ymgynghori arfaethedig.

**Crynodeb**

2. Mae'r papur hwn yn cyflwyno'r canllawiau drafft arfaethedig ar baratoi strategaethau cymunedol (gweler Atodiad 2). Bydd yn cael ei anfon at bob rhan o lywodraeth leol yng Nghymru ac at amrywiaeth o gyrff yn y sector cyhoeddus, y sector preifat a'r sector gwirfoddol (gweler y llythyr eglurhaol yn Atodiad 1). Byddwn yn gofyn cwestiynau pwysig i'r rhai a fydd yn cymryd rhan yn yr ymarferiad a bydd yr atebion a dderbyniwn yn dylanwadu ar sut y byddwn yn ymdrin â strategaethau cymunedol, a'r cynlluniau eraill yr ydym yn eu cynhyrchu ar hyn o bryd.

**Amseru**

3. Bwriedir cyhoeddi'r canllawiau drafft at ddiben ymgynghori cyn gynted â phosibl ym mis Rhagfyr.

**Cefndir**

4. Dan Ddeddf Llywodraeth Leol 2000, mae'n ddyletswydd ar y prif awdurdodau lleol yng Nghymru a Lloegr i baratoi strategaeth gymunedol er mwyn hyrwyddo ffyniant economaidd, amgylcheddol a chymdeithasol eu hardaloedd a chyfrannu at lwyddiant datblygu cynaliadwy yn y DU.
5. Wrth baratoi eu strategaethau cymunedol, rhaid i awdurdodau lleol yng Nghymru ystyried canllawiau Cynulliad Cenedlaethol Cymru. Cyn iddo gyhoeddi unrhyw ganllawiau, rhaid i'r Cynulliad ymgynghori â "cynrychiolwyr o lywodraeth leol, a phersonau eraill fel y gwêl yn dda" (gweler y rhestr ymgynghori ar ddiwedd y llythyr eglurhaol yn Atodiad 1).
6. Er mai swyddogaeth yr awdurdod lleol yw paratoi strategaeth gymunedol, mae'n bwysig

iawn ei bod yn cael ei chynhyrchu law yn llaw â’r gymuned a’i bod yn dangos bod y gymuned gyfan yn "berchen" arni. Mae’r canllawiau yn ceisio sicrhau bod yr egwyddor o gydraddoldeb rhwng y gwahanol sectorau a’r gwahanol fuddiannau yn y gymuned yn cael ei hyrwyddo ac mai swyddogaeth "arweiniol" yr awdurdod leol fydd gwneud pethau’n haws i’r bartneriaeth.

7. Dosbarthwyd y canllawiau drafft i holl is-adrannau’r Cynulliad ac mae’r sylwadau a dderbyniwyd hyd yn hyn wedi eu hymgorffori yn y drafft. Mae’n bosibl y ceir rhai diwygiadau pellach ond nid ydym yn disgwyl y byddant yn newid cyfeiriad y canllawiau. Byddwn yn cael trafodaethau pellach ynghylch y cyfleoedd am ad-drefnu cynlluniau (gweler Atodiad 1 y canllawiau drafft) cyn cyhoeddi’r canllawiau.
8. Bu’r is-grwp Strategaethau Cymunedol yn ystyried y canllawiau drafft ar 17 Tachwedd 2000. Mae eu sylwadau ar y drafft wedi eu hymgorffori.

**Ystyriaeth**

9. Rhaid i’r strategaeth gymunedol gael ei gweld fel cynllun gorfwaol ar gyfer y gymuned leol ac fel y man cyswllt cyntaf wrth lunio cynlluniau eraill. Mae dyfodiad y strategaethau cymunedol yn cynnig y cyfle i leihau nifer y cynlluniau ac yn annog uno cynlluniau.
10. Y bwriad yw y bydd y cylch cynllunio ac adolygu yn cyd-fynd â’r cylch etholiadol. Dylai’r strategaeth feddu ar amcanion tymor-hir ar gyfer y 10 i 15 mlynedd nesaf ynghyd â chynlluniau gweithredu tymor-byr y gall yr etholwyr gloriannu eu heffeithiolrwydd. Nid yw’r ddeddfwriaeth yn nodi pryd y dylid cynhyrchu’r cynlluniau. Mae’r canllawiau drafft yn awgrymu y dylai’r holl awdurdodau lleol fod wedi dechrau ar y broses ers 1 Ebrill 2000 ac y dylent gynhyrchu cynllun erbyn yr etholiad llywodraeth leol nesaf.

**Cydymffurfio**

11. Mae Deddf Llywodraeth Leol 200 (Rhan I, s 4.3) yn nodi bod yn rhaid i awdurdodau lleol ystyried unrhyw ganllawiau a gyhoeddwyd gan y Cynulliad wrth lunio neu ddiwygio eu strategaeth gymunedol. Nid oes unrhyw faterion sy’n ymwneud â rheoleidd-dra nac uniondeb yn gysylltiedig â’r papur hwn.

**Goblygiadau Ariannol**

12. Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol ychwanegol ar gyfer y Cynulliad yn gysylltiedig â hyn nac unrhyw gostau atodol penodol ar gyfer llywodraeth leol y gellid eu darganfod: mae rheidrwydd eisoes ar awdurdodau lleol i ymgynghori dan y cynllun Gwerth Gorau a dylai’r costau ychwanegol sy’n gysylltiedig â chyfranogaeth ychwanegol gan y gymuned a mwy o ymdrech i gyd-drefnu gael eu cyfiawnhau gan ddealltwriaeth well a threfn well.

**Themâu trawsbynciol**

13. Mae hyn yn berthnasol i bob sector a’r holl fuddiannau ac mae’r ffaith ein bod yn bwriadu ymgynghori’n eang yn adlewyrchu hyn. Dylai’r broses ymgynghori sicrhau bod y canllawiau yn cyfeirio’n ddigonol at yr holl themâu perthnasol.

**Gweithredu**

14. Gofynnir i’r Pwyllgor wneud sylwadau ynghylch unrhyw agweddau penodol y mae’n teimlo y dylid ymdrin â hwy yn y canllawiau drafft ac unrhyw gwestiynau pwysig y mae’n teimlo y dylid tynnu sylw atynt yn broses ymgynghori.

**Man Cyswllt**

15 Mary Fraser, Moderneiddio Llywodraeth Leol 1, Est 6414